**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Mawrth 21ain 2016 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley (cadeirydd), Margaret Bowe, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones, Marilyn Jones, Alyn Ashworth a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**200. Cyflwyniad gan Emily Reddy ar Fenter Sgiliau Cymunedol Cefn Gwlad.** Dywedodd y cadeirydd na fyddai Emily Reddy, oherwydd amgylchiadau teuluol, yn mynychu'r cyfarfod.

**201. Cyflwyniad gan Kimberley Edmunds ynglŷn â Leonard Cheshire Disability.**
Croesawodd y cadeirydd Kimberley Edmunds cydlynydd gwirfoddolwyr a'i gwahoddodd i annerch y cyfarfod. Cyflwynodd Ms Edmunds gyflwyniad power point yn amlinellu hanes y diweddar Group Catpain Leonard Cheshire ac arweiniodd yr aelodau drwy waith y gymdeithas. Roedd un biliwn o bobl fyd-eang gydag anabledd. Roedd y gymdeithas yn gweithio gyda phartneriaid lleol mewn tair ardal benodol. Roedd cyfleusterau byd-eang ar gael. Roedd un filiwn ar ddeg o rai anabl yn y DU. Yng Nghymru roedd 152 yn byw mewn cartrefi gofal. Yng Ngogledd Cymru roedd cartrefi ym Mae Colwyn a Llangollen gyda gwasanaethau estyn allan yn Nhreffynnon a Chaergybi.
Ymatebodd Ms Edmunds i gwestiynau a sylwadau'r aelodau ar (1) breswylwyr yng nghartref Bae Colwyn, (2) lefel nifer gwirfoddolwyr, (3) cymorth ar gyfer plant.
Llongyfarchodd a diolchodd yr holl aelodau is Ms Edmunds am ei chyflwyniad.
Diolchodd y cadeirydd i Ms Edmunds am ei phresenoldeb a'i chyflwyniad ac aeth ymlaen i ddweud y dylem fod yn ddiolchgar am y cyfleuster.

**202. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**203. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych a materion cynllunio - personol.
(2) Cyng Colin Hughes - holl faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych - personol.

**204. Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 22ain 2016.**

**205. Materion yn codi:** (1) Cofnod 183(2)(3)) - Cau Llysoedd. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth CLI&TEM. Nodwyd y llythyr heb sylw pellach.

**206. Adroddiad y Maer.** Dywedodd y Maer y byddai'n cyflwyno ei adroddiad olaf i gyfarfod o'r cyngor llawn ar Ebrill 25ain 2016.

**207. Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi dwy eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) E-bost oddi wrth Ysgol y Santes Ffraid ynglŷn ag enwebiad ar gyfer olynydd fel llywodraethwr awdurdod llai. Gwirfoddolodd y Cyng Catherine Jones.

(2) E bost oddi wrth Lyndsey Tasker ar ran Grŵp Dinbych yn ei Flodau. Dywedwyd fod yr hen gynhwysyddion pren wedi mynd yn ddarnau. Ynglŷn ag yswiriant dywedwyd fod angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer unrhyw gynhwysyddion a ddefnyddir. Cytunwyd i fynd ar ofyn y cyngor tref am hyn mewn amser.
(3) E-bost ynglŷn â Chlwb Rygbi Dinbych. Cytunwyd i yrru llythyr o gefnogaeth.
(4) E-bost oddi wrth Su Gillespie ynglŷn â chynnal cystadlaethau Boules yng Ngardd Goffa Dr Evan Pierce - cytunwyd i roddi caniatâd i ddefnyddio'r Ardd rhwng mis Mai a mis Medi 2016.
(5) E-bost ynglŷn â Chwarel Dinbych. Dywedwyd ei fod yn newyddion da fod y chwarel i ail agor ac i atgyfodi'r grŵp cyswllt. Cytunwyd i'r Cyng Colin Hughes a Margaret Bowe barhau i gynrychioli'r cyngor ar y grŵp cyswllt.
(6) E-bost odd wrth yr archifydd siriol yn cadarnhau fod y gwaith ar Siarteri Dinbych wedi ei gwblhau. Clerc y dref i drefnu ymweliad i weld y siarteri.
(7) E-bost ynglŷn â seminar CCTCGC yng Nghonwy ar Fawrth 31ain. Y Cyng Margaret Bowe, Catherine Jones, Gaynor Wood-Tickle, Raymond Bartley a Colin L Hughes yn mynychu.

**208.** **Cynllunio**: 1. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 23, Llys Gwydr - tynnu i lawr y tŷ gwydr presennol a chodi estyniad un llawr a dau lawr i gefn yr adeilad.
(2) Pendista, Whitchurch Road - codi estyniad i'r llawr cyntaf gyda balconi (ail-gyflwyniad).
(3) 124, Stryd y Dyffryn - newid defnydd cyn swyddfa bost i ffurfio rhan o annedd presennol.

**209.** **Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Fawrth 14eg 2016.
(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fawrth 15fed 2016.

**210** **Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor:** Dim.

**211.** **Adroddiadau**: (1) Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(2) Goleuadau Nadolig. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Dywedodd clerc y dref fod ymchwiliadau wedi cychwyn ynglŷn â'r bachau gwifrau catenary.

(3) Tân Gwyllt. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(4) Ysgol Twm o'r Nant. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod prif athro newydd wedi ei apwyntio a bod yr ysgol yn edrych ymlaen at groesawu'r pennaeth newydd ym mis Medi.

(5) Rali Geir CCTCGC. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Roy Tickle ar gyfarfod diweddar. Rali'r flwyddyn yma i gymryd lle dydd Sul Hydref 2il yn cychwyn o Ddinbych ac yn gorffen yng Nghaernarfon.

(6) Prosiect Ieuenctid Dinbych. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Mark Young ar y cyfarfod blynyddol. Roedd y prosiect wedi ennill gwobrau. Cynorthwywyd 52 o deuluoedd lleol a 12 o bobl ifainc wedi cael gwaith.

(7) Robert Arthur Crisis Fund. Dywedodd y Cyng Catherine Jones fod y gronfa wedi gosod defibrillator yn siop Morrisons.

(8) Cinio Dydd Gŵyl Dewi y Ffiwsilwyr Cymreig. Dywedodd y Cyng Margaret Bowe ei bod wedi mynychu'r cinio ac wedi derbyn tystysgrif am fwyta Cenhinen.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**212. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Colin Hughes: (1) Gwaith lagio yn Ninbych Uchaf yn parhau - derbyniwyd nifer o gwynion ynglŷn â'r llanastr a adawyd gan y contractwyr. (2) Grŵp llywio yn edrych ar ddau safle CDLl Dinbych - Ffordd Henllan a rhan o Fferm y Lodge - pryderon mwyaf oedd mesuriadau i dawelu trafnidiaeth. (3) Yn delio a nifer o waith achosion unigolion.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley: (1) Yn delio a nifer o ymholiadau. (2) Ysgol Twm o'r Nant i dderbyn gwobr fawreddog am ei dyluniad. (3) Iard y Stesion - roedd y caniatâd cynllunio manwl bellach wedi ei dderbyn. (4) Codiad costau parcio yn dod i rym ar Ebrill 1af 2016 - ni fydd ac unrhyw effaith ar barcio ar fore dydd Sul - ni fydd unrhyw orfodaeth tan ddaw'r amser i adolygu mater.

Ymatebodd y ddau aelod i gwestiynau oddi wrth yr aelodau ar (1) Ddiogelwch safle Lôn Ganol - manylion i'w gyrru i glerc y dref. (2) Problemau llifogydd ym Maes Hyfryd - swyddogion cynllunio a llifogydd yn edrych ar y broblem - roedd cwestiwn ynglŷn â pherchnogaeth y llwybr. (3) Cylchfan Pwll y Grawys - gwaith i fod i ddechrau cyn diwedd mis Mawrth. (4) Cynlluniau i dacluso'r amgaefa ym Mryn Garth ar gyfer defnydd y gymuned. (5) Gwaith ar Stryd y Dyffryn a goleuadau trafnidiaeth dros dro

**213. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Fiona Gayle - ffi darlith treftadaeth18.2.16<br>(Rhif siec 005845) | - | £15.00 |
| (2) | Clwyd Wynne - ffi darlithoedd treftadaeth gan dîm yr archif gymunedol 28.1.16 & 11.2.16<br>(Rhif siec 005846) | - | £50.00 |
| (3) | Clerc y Dref - ad-daliad costau anrhegion i'r darlithwyr (R M Owen & Gronwy Wynne) a lluniaeth ar noson olaf y darlithoedd 17.3.16<br>(Rhif siec 005847) | - | £58.78 |
| (4) | Sandra Williams gwasanaeth cyfieithu 15/2; 16/2; 1/3; 9/3; 14/3; 15/3<br>(Rhif siec 005848) | - | £559.20 |

Cyfanswm taliadau: £682.98.

2. Materion ariannol eraill: (1) Awdurdod i Glerc y Dref / Swyddog Cyllid i dalu unrhyw gyfrifon a dderbynnir hyd at ac yn cynnwys Mawrth 31ain 2016 - yn anffodus ni ystyriwyd yr eitem agenda yma ac felly ni fu unrhyw benderfyniad
(2) Goleuadau Nadolig - cyfeiriodd clerc y dref at y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Adams Consulting ynglŷn â chyngor ar amnewid bachau cysylltu gwifrau catenary. Cytunwyd i nodi a derbyn y dyfynbris.
(3) I beacons - Rhanodd y Cyng Medwyn Williams wybodaeth a hysbysodd y cyfarfod am benderfyniad y Comisiwn Brenhinol i osod yr offer yn Ninbych - wedi ei leoli ar dechnoleg Bluetooth. Eglurodd y Cyng Williams y bydd y Comisiwn Brenhinol yn ariannu prynu'r offer a'r meddalwedd a gofynnodd am gymeradwyaeth y cyngor i gefnogi'r prosiect mewn egwyddor a hefyd i ystyried ariannu'r ffi trwydded flynyddol o

£360 ar ôl y 12 mis cyntaf. Yn dilyn trafodaeth fer cytunwyd i gefnogi'r prosiect mewn egwyddor ac i ystyried ariannu'r ffi am y drwydded mewn amser.

(4) Asesiad Risg. Cyfeiriodd clerc y dref at yr asesiad risg fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid ar Chwefror 15fed 2016 ac eglurodd fod angen i'r cyngor llawn gymeradwyo'r asesiad risg. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gymeradwyo'r asesiad risg**

(5) Cyfrifon 2015/2016 - eglurodd clerc y dref fod angen i'r cyngor llawn gymeradwyo apwyntio archwilydd mewnol. **Penderfynwyd parhau i gyflogi JDH Business Services fel yr Archwilydd Mewnol.**

(6) Eglurodd clerc y dref fod BDO LLP wedi ei apwyntio fel archwilydd allanol. Bydd y datganiad llywodraethol blynyddol ar y ffurflen flynyddol o hyn ymlaen mewn dwy ran gyda rhan un yn cynnwys yr wyth cwestiwn gwreiddiol a rhan dau 4 cwestiwn wedi eu gosod gan Swyddfa Archwiliad Cymru ac yn edrych ar osod cyllideb, monitro'r gyllideb ac apwyntiad archwilydd mewnol. Bydd holiadur ar wahân yn cael ei yrru yn gofyn am gopïau o wahanol ddogfennau.

(7) Cyfeiriodd clerc y dref at y rhestr o asedau'r cyngor fel ac y bydd ar 31.3.16 a chadarnhaodd yr angen i'r cyngor llawn gymeradwyo'r rhestr. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gymeradwyo'r rhestr o asedau.**

**214. Apwyntiad Clerc y Dref a SAC.** Cadarnhaodd y cyfarfod apwyntiad Mrs Jenny Barlow o Henllan fel Clerc y Dref a SAC. Dywedodd clerc y dref fod Mrs Barlow wedi derbyn y swydd.

**215. Trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol ar Fai 6ed 2016:** Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar y trefniadau canlynol:

(1) O gymryd i ystyriaeth y gost o bostio - yr aelodau i gynorthwyo gyda dosbarthu'r gwahoddiadau.

(2) Nifer i wahodd. Atgoffodd clerc y dref y cyfarfod o'r cytundeb fod angen torri i lawr ar y gost. Yn dilyn trafodaeth fer cytunwyd i'r gwahoddiad gael ei estyn i ddau gynrychiolydd o bob cymdeithas.

(3) Lluniaeth - cytunwyd i logi S & T Catering ac i'r arlwyaeth gan ei leihau 25%.

(4) Ymarfer - nos Fercher Mai 4ydd 2016 am 6.30 o'r gloch.

(5) Y Cyng Roy Tickle i gynnig y Cyng Margaret Bowe yn Faer, eiliwyd gan y Cyng Gaynor Wood-Tickle.

(6) Y Cyng Raymond Bartley i gynnig y Cyng Roy Tickle yn Ddirprwy Faer, eiliwyd gan y Cyng Rob Parkes.

(7) Y Cyng Roy Tickle i gynnig pleidlais o ddiolch i'r Cyng Raymond Bartley, y Maer oedd yn ymddeol o'r swydd.

(8) Cyhoeddodd y Cyng Margaret Bowe fod y Sul Dinesig ar Fai 22ain 2016 yn Eglwys y Santes Fair am 3.30 o'r gloch.

**216. Darlithoedd Treftadaeth 2016.** Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Diolchodd y Cyng Roy Tickle i glerc y dref am ei holl waith yn trefnu'r darlithoedd. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod y darlithoedd wedi bod yn boblogaidd dros nifer o flynyddoedd a gobeithiodd y bydd y cyngor tref yn trefnu cyfres arall mewn amser.

**217. Apwyntio Bwrdeiswyr Anrhydeddus.** Atgoffodd clerc y dref fod yr eitem agenda yma wedi ei ohirio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 22ain. Cadarnhaodd clerc y dref ei bod yn beth amser ers i'r cyngor tref apwyntio Bwrdeiswyr Anrhydeddus a chyfeiriodd at y protocol a fabwysiadwyd gan y cyngor yn 2007. Apwyntiwyd tri bwrdeisiwr anrhydeddus ond yn anffodus fod dau bellach wedi ein gadael. Cytunwyd i ffurfio is bwyllgor i drafod a pharatoi adroddiad. Y Cyng Medwyn Williams, Gaynor Wood-Tickle, Gaynor Morgan Rees, Margaret Bowe a Roy Tickle i ffurfio'r is bwyllgor.

**218. Storfa'r Cyngor - cael gwared ac offer diangen.** Dywedodd clerc y dref fod y cyngor yn berchen ar offer TC nad oedd bellach ei angen a gofynnodd am benderfyniad gan y cyngor ynglŷn â chael gwared ar offer. Cytunwyd i glerc y dref gael gwared a'r offer.
Aeth clerc y dref ymlaen i ddweud, am fod y storfa wedi newid dwy ystafell yn yr hen Lysdy, nid oedd angen bellach ar y rhestlau storfa blastig a ddefnyddiwyd a gofynnodd i'r cyngor am gyfle i brynu'r rhestlau. Cytunwyd i glerc y dref gael y rhestlau am ddim

**219. Bwrdd Meiri.** Awgrymodd y Cyng Roy Tickle ei bod hi'n amser i anrhydeddu ac ychwanegu enwau y Cofiadur Anrhydeddus, Bwrdeiswyr Anrhydeddus a Chlercod Tref Dinbych ar fwrdd a chynigodd fod y pedwerydd panel ar y bwrdd presennol yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas yma. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i dderbyn yr awgrym a'r cynnig.**

**220. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2016/2017.** Dywedodd clerc y dref fod Adran 10 o'r adroddiad yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned. Atgoffodd clerc y dref fod yr eitem agenda yma wedi ei gohirio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 22ain. Roedd copïau o'r adran berthnasol wedi eu dosbarthu i'r aelodau a gofynnodd clerc y dref i'r cyfarfod ystyried pob un o'r naw penderfyniad oedd o fewn yr adroddiad. Ystyriwyd a chafwyd pleidlais ar bob un o'r penderfyniadau fel a ganlyn, hynny yw, **i dderbyn yr argymhellion canlynol:**

(1) **Penderfyniad (46)** - (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref wneud taliadau i bob un o'u haelodau hyd at uchafswm o £100 y flwyddyn ar gyfer mynd i gostau ynglŷn â defnyddio teleffon, gwybodaeth technoleg, treuliau ac ati.**

(2) **Penderfyniad (48)** - (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref i ddarparu lwfans dinesig i'r maer / cadeirydd a dirprwy faer / gadeirydd y cyngor yn y swm yr oeddynt yn ei ystyried yn briodol i gyflawni swyddogaethau'r swydd hynny.**

(3) **Penderfyniad (49)** - (12 o blaid ac 1 yn erbyn) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref wneud taliadau i bob un o'u haelodau ar gyfer costau teithio tu mewn a thu allan i ardal y cyngor - y taliadau hynny i fod y gwir gostau trafnidiaeth gyhoeddus neu lwfans milltiroedd HMRC.**

(4) **Penderfyniad (50)** - (11 o blaid a 2 yn erbyn) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref ad-dalu costau cynhaliol i bob un o'u haelodau ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd tu allan i ardal eu cyngor yn unol â mwyafsymiau a osodwyd ac ar sail derbyn talebion ynglŷn â'r ceisiadau.**

**Cytunwyd i gymryd penderfyniadau 53 a 54 gyda'i gilydd**

(5) **Penderfyniad (53)** - (11 o blaid 1 yn erbyn ac 1 bleidlais wedi ei hatal) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref i ddarparu ad-daliad costau angenrheidiol am ofal plant dibynnol ac oedolion (a ddarparwyd gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hud am uchafswm o £403 y mis. Yr ad-daliad ond i'w wneud pan dderbynnir talebion gan y gofalwr.**

(6) **Penderfyniad (54)** - (11 o blaid 1 yn erbyn ac 1 bleidlais wedi ei hatal) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref i ddarparu ad-daliad costau angenrheidiol am ofal gofynion cymorth personol plant dibynnol ac oedolion (a ddarparwyd gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hud am uchafswm o £403 y mis. Yr ad-daliad ond i'w wneud pan dderbynnir talebion gan y gofalwr.**

**Cytunwyd y bydd angen i'r cyngor edrych ar benderfyniadau 53 a 54 wrth benderfynu'r gyllideb nesaf.**

**Ac i beidio â derbyn yr argymhellion canlynol:**

(1) **Penderfyniad (47) -** (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref i wneud taliadau ychwanegol blynyddol heb fod dros £500 hyd at dri aelod mewn cydnabyddiaeth am gyfrifoldebau penodol.**

(2) **Penderfyniad (51) -** (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref i dalu lwfans presenoldeb i bob un o'u haelodau ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd tu allan i ardal y cyngor yn unol â'r cyfraddau a drefnwyd.**

(3) **Penderfyniad (52) -** (yn unfrydol) **y caniateir i gynghorau cymuned a thref i dalu lwfans colled ariannol i bob un o'u haelodau ar gyfer dyletswyddau tu allan i ardal y cyngor yn unol â'r cyfraddau a drefnwyd.**

**221. CSDd - Cynllun Tyfiant Canolfannau Trefi ac Arallgyfeirio.** Cyfeiriodd clerc y dref at y ddogfen a dderbyniwyd. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod y cyfeiriad at Ddinbych yn un siomedig a negyddol. Roedd un neu ddau o bethau da. Disgrifiwyd Stryd y Dyffryn fel y Stryd Fawr ac roedd yn rhoddi'r argraff ei bod yn ffordd anodd ei theithio. Dywedodd y Cyng Rob Parkes fod llawer o fai ar GSDd am y disgrifiad am Ddinbych a chefnogodd sylwadau'r Cyng Medwyn Williams. Dywedodd y Cyng Roy Tickle fod y disgrifiad am dref Rhuthun yn fyrrach ond yn fwy positif. Yr holl sylwadau a wnaed i'w cyfleu i GSDd.

Yn y man yma symudodd y cyfarfod i Ran 2

Ar ôl cwblhau'r busnes o dan Ran 2 terfynwyd y cyfarfod gan y cadeirydd.

Arwyddwyd:........................................................ (cadeirydd)

Dyddiad:........................